

B6. Darparu arweinyddiaeth ym maes eich cyfrifoldeb

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned yn ymwneud â rhoi cyfeiriad i bobl mewn maes neu ran o sefydliad a ddiffinir yn eglur ac yn ffurfiol, a'u cymell a'u cefnogi i gyflawni gweledigaeth ac amcanion y maes.

Gallai'r 'maes cyfrifoldeb' fod, er enghraifft, yn gangen neu'n adran, neu'n faes swyddogaethol neu'n safle gweithredu o fewn sefydliad.

Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer rheolwyr atebol cyntaf a rheolwyr canol.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac uned **B1. Datblygu a gweithredu cynlluniau gweithredol ar gyfer maes eich cyfrifoldeb**, **B5. Darparu arweinyddiaeth i'ch tîm**, **B7. Darparu arweinyddiaeth ar gyfer eich sefydliad** a **D6. Dyrannu gwaith ym maes eich cyfrifoldeb a monitro ei gynnydd a'i ansawdd** yng nghyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth ddarparu arweinyddiaeth ym maes eich cyfrifoldeb. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Cyfathrebu
- Dylanwadu a pherswadio
- Arwain trwy esiampl
- Cymell
- Ymgynghori
- Cynllunio
- Gosod amcanion
- Darparu adborth
- Hyfforddi
- Mentora
- Gwerthfawrogi a chefnogi pobl eraill
- Grymuso
- Dysgu
- Dilyn
- Rheoli gwrthdaro
- Sicrhau adborth

B6. Darparu arweinyddiaeth ym maes eich cyfrifoldeb

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Creu gweledigaeth ynglyn â tharged eich maes a'i chyfleu yn eglur ac yn frwdfrydig, ynghyd â'ch amcanion a'ch cynlluniau gweithredol sy'n ei chefnogi, i'r bobl sy'n gweithio yn eich maes.
2. Sicrhau bod y bobl sy'n gweithio yn eich maes yn deall sut mae'r weledigaeth, yr amcanion a'r cynlluniau gweithredol yn cysylltu â gweledigaeth ac amcanion y sefydliad cyfan.
3. Llywio'ch maes yn llwyddiannus trwy anawsterau a heriau, gan gynnwys gwrthdaro o fewn y maes.
4. Creu a chynnal diwylliant yn eich maes sy'n annog ac yn cydnabod creadigrwydd ac arloesedd.
5. Datblygu amrywiaeth o arddulliau arwain, eu dethol a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd priodol a chyda phobl briodol.
6. Cyfathrebu yn rheolaidd â'r holl bobl sy'n gweithio yn eich maes a dangos eich bod yn gwrandao ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, a hynny gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau cyfathrebu yn effeithiol.
7. Rhoi cefnogaeth a chynghor i bobl yn eich maes pan fydd eu hangen arnynt, yn enwedig yn ystod cyfnodau o rwystrau a newid.
8. Cymell a chefnogi pobl yn eich maes i gyflawni eu hamcanion gwaith a'u hamcanion datblygu, a rhoi cydnabyddiaeth iddynt pan fyddant yn llwyddo.
9. Grymuso pobl yn eich maes i ddatblygu eu ffyrdd eu hunain o weithio, ac i wneud eu penderfyniadau eu hunain o fewn terfynau cytunedig.
10. Annog pobl i arwain yn eu meysydd eu hunain o arbenigedd, a dangos parodrwydd i ddilyn yr arweiniad hwn.
11. Trwy'ch perfformiad, ennill ymddiriedaeth a chefnogaeth pobl yn eich maes i'ch arweinyddiaeth, a sicrhau adborth rheolaidd ar eich perfformiad.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn cyfleu gweledigaeth sy'n cynhyrchu cyffro, brwdfrydedd ac ymrwymiad.
2. Byddwch yn creu ymdeimlad o bwrpas cyffredin.
3. Byddwch yn cymryd cyfrifoldeb personol am wneud i bethau ddigwydd.
4. Byddwch yn gwneud pethau cymhleth yn syml er budd pobl eraill.
5. Byddwch yn annog ac yn cefnogi eraill i wneud eu penderfyniadau eu hunain.
6. Byddwch yn gweithredu o fewn terfynau'ch awdurdod.
7. Byddwch yn sicrhau bod amser ar gael i gefnogi eraill.
8. Byddwch yn onest, yn deg ac yn gyson wrth wneud penderfyniadau.

9. Byddwch yn ceisio deall anghenion a chymelliannau pobl.
10. Byddwch yn ymddwyn mewn ffordd sy'n dangos parch, cymwynasgarwch a chydweithrediad.
11. Byddwch yn annog ac yn cefnogi eraill i ddefnyddio'u galluoedd i'r eithaf.

B6. Darparu arweinyddiaeth ym maes eich cyfrifoldeb

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Y gwahaniaethau sylfaenol rhwng rheolaeth ac arweinyddiaeth
2. Sut i greu gweledigaeth gymhellol ar gyfer maes cyfrifoldeb
3. Sut i ddethol gwahanol ddulliau o gyfathrebu â phobl ar draws maes cyfrifoldeb, a defnyddio'r rhain yn llwyddiannus
4. Amrediad o wahanol arddulliau arwain, a sut i ddethol a defnyddio'r rhain mewn gwahanol sefyllfaoedd a chyda gwahanol bobl
5. Sut i gael adborth oddi wrth bobl ar eich perfformiad fel arweinydd, a sut i'w ddefnyddio yn effeithiol
6. Mathau o anawsterau a heriau a allai godi, gan gynnwys gwrthdaro o fewn y maes, a ffyrdd o'u nodi a'u goresgyn
7. Manteision creu a chynnal diwylliant sy'n annog ac yn cydnabod creadigrwydd ac arloesedd, a sut i wneud hynny
8. Pwysigrwydd annog eraill i gymryd yr awenau, a sut y gellir cyflawni hyn
9. Sut i rymuso pobl yn effeithiol
10. Sut i ddethol gwahanol ddulliau o annog, cymell a chefnogi pobl ac o gydnabod cyflawniadau, a'u defnyddio yn llwyddiannus

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Arddulliau arwain sy'n gyffredin yn y diwydiant/sector
2. Gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol yn y diwydiant/sector

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Eich gwerthoedd, eich cymelliannau a'ch emosiynau eich hun
2. Eich cryfderau a'ch cyfyngiadau eich hun yn y rôl arwain
3. Cryfderau, cyfyngiadau a photensial y bobl rydych yn eu harwain
4. Eich rôl, eich cyfrifoldebau a lefel eich grym eich hun
5. Gweledigaeth ac amcanion y sefydliad cyfan
6. Gweledigaeth, amcanion, diwylliant a chynlluniau gweithredol maes eich cyfrifoldeb
7. Mathau o gefnogaeth a chynghor y mae'n debygol y bydd eu hangen ar bobl a sut i ymateb i'r rhain
8. Arddulliau arwain a ddefnyddir yn y sefydliad drwyddo draw